Cyngor Bro Morgannwg

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd
2021 – 2036

Rhagfyr 2025





RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

## Cynllun Adneuo Hawdd ei Ddarllen

# Beth yw’r CDLN ?

**Mae Cyngor Bro Morgannwg yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLN). Bydd y CDLN yn cwmpasu’r cyfnod 2021-2036 a bydd yn cymryd lle’r CDLN presennol (2011– 2026).**

Bydd y CDLN yn nodi ble a sut bydd datblygiadau newydd yn digwydd dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd yn cynnwys dyraniadau safle ar gyfer gwahanol ddefnyddiau tir, fel tai a chyflogaeth, a pholisïau i helpu i fynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur datganedig, diogelu’r amgylchedd, a sicrhau dyluniad o ansawdd uchel. Pan gaiff ei fabwysiadu gan y Cyngor, bydd y CDLN yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio.

Mae’r CDLN bellach wedi cyrraedd y cam Adneuo fel y dangosir isod. Mae’n ymhelaethu ar y Strategaeth a Ffefrir, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2023 ac sydd wedi’i lywio gan sylfaen dystiolaeth helaeth, gan gynnwys cyfres o bapurau cefndir ac adroddiadau ategol. Mae’n dangos pa safleoedd fydd yn cael eu dyrannu, a pha rai fydd yn cael eu diogelu, ac yn nodi polisïau a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio.






# Beth yw'r Cynllun Adneuo y CDLN?

Mae'r Cynllun Adneuo yn nodi Gweledigaeth ar gyfer lle rydym am i Fro Morgannwg fod yn 2036, y materion a'r amcanion, a strategaeth ofodol eang; gan gynnwys y twf mewn poblogaeth, tai a chyflogaeth a sut y bydd y twf hwn yn cael ei ledaenu ar draws Bro Morgannwg, fel y dangosir isod.

Mae'n dangos pa safleoedd fydd yn cael eu dyrannu, a pha rai fydd yn cael eu diogelu, ac yn nodi polisïau a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## Cynllun Adneuo

**Cyd-destun Polisi**

Polisi Cenedlaethol a Deddfwriaeth, Strategaethau Rhanbarthol a Lleol.

**Themâu Allweddol**

Grwpio'r materion a nodwyd yn themâu allweddol i'w datrys.

**Amcanion Strategol**

Amcanion i arwain y gwaith o weithredu'r Weledigaeth - gan adlewyrchu'r themâu allweddol.

**Strategaeth Ofodol**

Yn nodi **Strategaeth Tyfu Cynaliadwy** ar gyfer lleoli datblygiadau yn y dyfodol a lefel y twf tan 2036, wedi'i darlunio gan Ddalen Allweddol.

**Nodweddion Bro Morgannwg**

Trosolwg o nodweddion allweddol y Fro a'r materion.

**Gweledigaeth ofodol**

Y weledigaeth ofodol hirdymor hyd at 2036 a fydd yn llywio penderfyniadau'r polisi.

**Dyraniadau a Dynodiadau**

Crynhoi'r Strategaeth Ofodol a'r Opsiynau Twf a ystyriwyd cyn nodi'r opsiynau a ffefrir.

**Polisïau Strategol**

Polisïau Strategol Allweddol sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â thwf tai, cyflogaeth a manwerthu, yn ogystal â pholisïau sy'n adlewyrchu'r themâu allweddol.

# Y Weledigaeth ar gyfer y CDLN

**Mae Gweledigaeth y CDLN yn edrych ymlaen 15 mlynedd hyd at 2036 ac yn dangos sut y bydd twf yn cyfrannu at wneud y Fro yn lle iachach, cysylltiedig a chynaliadwy lle mae pobl eisiau byw a gweithio. Mae'n pennu'r cyfeiriad cyffredinol ac yn ffurfio'r cysylltiad rhwng y weledigaeth lefel uchel a'r strategaeth twf gofodol a'r polisïau strategol.**

*Dangosir crynodeb o Weledigaeth CDLN Bro Morgannwg isod. Mae'r weledigaeth lawn wedi'i chynnwys yn y ddogfen Cynllun Adneuo:*

## Erbyn 2036:-

Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei darged o fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Mae wedi mabwysiadu technegau a defnydd effeithlon o adnoddau i liniaru ei effaith ar yr amgylchedd. Mae'r holl ddatblygiadau ym Mro Morgannwg bellach wedi eu hadeiladu i'r safonau uchaf o ran dylunio a pherfformiad amgylcheddol, gan ymgorffori mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.

Mae'r Fro'n parhau i fod yn rhywle lle mae diwylliant ac amrywiaeth pobl yn cael eu cydnabod a'u gwarchod.

Mae Bro Morgannwg yn gyrchfan i dwristiaid gydol y flwyddyn. Mae rheoli sensitif a chynaliadwy ar ei hasedau adeiledig a naturiol gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth, Parciau Gwledig, traethau, cefn gwlad a threftadaeth hanesyddol wedi galluogi twristiaeth i ffynnu. Mae'r Fro yn denu ymwelwyr o bell ac mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth a buddsoddiad lleol.

Mae'r Fro yn elwa ar amrywiaeth o fanteision hamdden ac iechyd o fewn a rhwng trefi, pentrefi a chefn gwlad. Mae mwy o drigolion yn cymryd rhan mewn ffyrdd o fyw iach a llesol. Mae gwelliannau amgylcheddol wedi bod o fudd i fioamrywiaeth wrth greu cynefinoedd newydd. Mae plannu coed yn cyfrannu at wydnwch ac addasu yn sgil Newid yn yr Hinsawdd.

Mae'r dref a chanolfannau manwerthu lleol yn lleoedd bywiog, tra bod y marina newydd yng Nglannau'r Barri ac Ynys y Barri ar ei newydd wedd yn cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn.

Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau lleol a lleoedd cynhwysol i gyfarfod a chwarae ynddynt. Bydd datblygiadau newydd yn parchu cymeriad lleol y Fro, gan warchod ei hamgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig arbennig. Mae treftadaeth hanesyddol bwysig y Fro yn parhau i gael ei gwarchod a'i gwella.





Mae trefi'r Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth yn ganolfannau gwasanaeth cynaliadwy bywiog a deniadol sy'n darparu ystod amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau i'w trigolion a'r rhai sy'n byw mewn pentrefi cyfagos. Mae canol trefi wedi addasu i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad manwerthu a bellach yn gweithredu fel canolfannau aml-ddefnydd sy'n darparu mannau manwerthu, hamdden, hamddena, cymunedol a chyflogaeth.

Mae cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru yn golygu bod gan gymunedau Bro Morgannwg well cysylltedd trafnidiaeth yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae rhwydweithiau teithio llesol gwell o fewn a rhwng trefi a phentrefi wedi creu cymdogaethau byw a hygyrch i breswylwyr sy'n gysylltiedig â'u haneddiadau gwledig cyfagos.

Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol.  Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai i bobl hŷn.

Mae economi leol y Fro yn ffynnu. Mae twf cyflogaeth newydd wedi denu buddsoddiad gan greu cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae gan y Fro weithlu medrus sy'n gallu ymaddasu. Mae darparu safleoedd cyflogaeth lleol, ochr yn ochr â chyfleoedd i fusnesau gwledig a chysylltedd digidol, wedi galluogi busnesau presennol i dyfu a ffynnu ac mae wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cymudo allan o'r ardal.

Trwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltedd band eang mae'r fro wledig yn gefn gwlad byw a gweithiol sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.

Mae lleoedd yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gynhwysol yn gymdeithasol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at iechyd a lles. Cyflawnwyd gwelliannau cadarnhaol i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig drwy wella mynediad at gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau a buddsoddi yn yr amgylchedd adeiledig.



# Amcanion y CDLN

## Mae'r 10 amcan strategol isod yn rhoi mwy o fanylion am weledigaeth y CDLN ar gyfer Bro Morgannwg.

Mae'r Amcanion hyn nid yn unig yn adlewyrchu polisi Cynllunio Cenedlaethol, ond hefyd dyheadau'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol ac yn dangos sut y bydd y CDLN yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

### Amcan 1
**Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd**

Sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, hyrwyddo technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy o fewn datblygiadau newydd. Cefnogi mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys cynlluniau gwresogi ardaloedd a rhai wedi'u harwain gan y gymuned.

Annog datblygiad sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog pobl i arfer teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer. Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau a seilwaith newydd yn wydn o ran effeithiau sy'n deillio o'r Newid yn yr Hinsawdd yn y dyfodol. Cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd sy'n dueddol o wynebu risg llifogydd ac ymgorffori mesurau rheoli dŵr, a mesurau gwella bioamrywiaeth ac addasu.

### Amcan 2
**Gwella Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol**

Sicrhau bod pob man yn cynnig amgylcheddau cynhwysol a hygyrch ar gyfer pob oedran sy'n hwyluso rhyngweithio â natur a phobl eraill, a mynediad at gyfleusterau gofal iechyd angenrheidiol. Galluogi preswylwyr i gymryd rhan mewn ffyrdd o fyw actif, drwy ddarparu mynediad cyfleus i fannau agored a llwybrau teithio llesol ar gyfer hamdden, hamddena a gwaith.

Galluogi darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac adfywio lleol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol.

### Amcan 3
**Cartrefi i Bawb**

Sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn darparu tai o safon uchel sy'n cynnwys y cymysgedd, y ddeiliadaeth a'r math o gartrefi cywir sy'n ymateb i anghenion newidiol poblogaeth y Fro. Mae hyn yn cynnwys cartrefi sy'n fforddiadwy, hygyrch ac addasadwy i bobl o bob oed ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion llety a nodwyd holl gymunedau'r Fro drwy bob cyfnod o'u bywydau.

### Amcan 4
**Creu Lleoedd**

Drwy greu lleoedd, sicrhau y bydd pob datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu ymdeimlad o le. Bydd yr holl ddatblygiadau newydd wedi'u lleoli'n briodol ac yn cyfrannu tuag at greu lleoedd llesol, diogel a hygyrch sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd cymeriad y cymunedau presennol yn cael ei ddiogelu a'i wella drwy ddatblygu lleoedd sy'n parchu arbenigrwydd lleol a'r lleoliadau presennol.

Hwyluso darpariaeth seilwaith cymunedol hygyrch sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gymuned, gan gynnwys iechyd o ansawdd uchel, addysg, hyfforddiant, a chyfleusterau a mannau cymunedol diwylliannol, cymdeithasol a hamdden.

### Amcan 5
**Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

Sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd, diogelu cynefinoedd naturiol ac ansawdd pridd a helpu i wrthdroi'r argyfwng natur drwy ddarparu budd bioamrywiaeth net lleol.

Blaenoriaethu tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiad newydd, gan gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o ddiddordeb gwarchod natur a diogelu'r amgylchedd naturiol sensitif rhag datblygiad amhriodol.



## Amcan 6

### Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth

Cydnabod gwerth treftadaeth adeiledig y Fro drwy wreiddio creu lleoedd yn y broses Gynllunio, er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu yn amddiffyn amgylchedd adeiledig hanesyddol y Fro rhag newidiadau niweidiol. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwarchod a gwella rhinweddau deniadol asedau hanesyddol y Fro, yn ymateb yn briodol i'r cyd-destun unigryw lleol ac yn sicrhau safonau dylunio uchel.

Cynnal a gwella cyfleusterau diwylliannol y Fro, a lle bo'n briodol sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi diwylliannol o fewn datblygiadau newydd, yn yr ardal gyhoeddus a thrwy ddarparu gofodau ac adeiladau cymunedol aml-bwrpas.

## Amcan 7

### Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig

Hwyluso adfywiad ffisegol, economaidd, a chymdeithasol, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau lleol, drwy ddarparu cartrefi newydd, cyflogaeth, a chysylltedd trafnidiaeth gwell.

Galluogi arallgyfeirio o ran defnydd o fewn trefi a chanolfannau masnachol a gwasanaeth lleol i gynnig cymysgedd o ddefnyddiau manwerthu, hamdden, masnachol a chymunedol. Gwella teithio llesol a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn a rhwng trefi ac aneddiadau cyfagos.

Darparu ar gyfer cymunedau gwledig hanfodol a bywiog tra'n gwarchod cefn gwlad trwy sicrhau twf mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n gysylltiedig â'r Hierarchaeth Aneddiadau, ochr yn ochr â darparu seilwaith ategol.

## Amcan 8

### Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at leoliadau sy'n hygyrch neu'n gallu bod yn hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i breswylwyr deithio'n llesol, drwy ymgorffori cyfleusterau teithio llesol ac annog newid moddol tuag at fwy o ddefnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.

Dod o hyd i gyfleoedd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth leol sy'n deillio o Fetro De-ddwyrain Cymru er mwyn cryfhau cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol ac yn rhanbarthol, darparu rheolaeth dros y rhwydwaith priffyrdd, a chynnig dewisiadau diogel ac effeithiol ar gyfer cerdded a beicio ochr yn ochr â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell.

## Amcan 9

### Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd

Darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o dir cyflogaeth o ansawdd da a chefnogi seilwaith i alluogi busnesau lleol i ehangu. Creu cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad a galluogi economi'r Fro i ymateb i newidiadau mewn patrymau gwaith a chyflogaeth yn y dyfodol.

Hyrwyddo Ardal Fenter Bro Tathan, Maes Awyr Caerdydd ac Aberddawan, fel meysydd cyflogaeth strategol pwysig, gan ddarparu swyddi o safon uchel a medrus, hyfforddiant a chyfleoedd addysg.

Cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig, gan alluogi cyfleoedd i ddarparu safleoedd cyflogaeth a busnes o fewn aneddiadau gwledig a hwyluso'r twf mewn mentrau gwledig.

Hwyluso twf twristiaeth gynaliadwy, gan gydnabod ei gyfraniad at les economaidd y Fro. Galluogi gwell hamdden, hamddena, gweithgarwch economaidd, arallgyfeirio, a datblygu cynaliadwy.

## Amcan 10

### Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda darlun positif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i wella profiad ymwelwyr a phreswylwyr.



# Strategaeth Twf Cynaliadwy

**Mae Strategaeth Twf Cynaliadwy y CDLN yn cynnwys chwe phrif elfen fel a ganlyn:**

1. Darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth wedi'i gefnogi gan seilwaith priodol i gyd-fynd â safle'r Fro ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
2. Alinio lleoliadau ar gyfer tai, cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau newydd i leihau'r angen am deithio.
3. Canolbwyntio datblygiad mewn lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan orsafoedd rheilffyrdd presennol ac arfaethedig fel rhan o gynllun Metro De Cymru ac mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau bws da.
4. Caniatáu ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach a arweinir gan dai fforddiadwy mewn aneddiadau y tu allan i'r Ardal Twf Strategol ar raddfa gymesur â maint yr anheddiad.
5. Cefnogi rôl Maes Awyr Caerdydd fel porth strategol ar gyfer cysylltedd rhyngwladol.
6. Caniatáu ar gyfer cyfleoedd adfywio, gan gynnwys yn Aberddawan a Dociau'r Barri.

Er mwyn cyflawni'r dyheadau sydd wedi'u cynnwys yn y Weledigaeth gyffredinol, mae angen lefel gynaliadwy o dwf ac felly bydd y CDLN yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

Dyrannu **182 hectar o dir cyflogaeth** ar draws amrywiaeth o safleoedd er mwyn dwyn ymlaen 67.8 hectar a darparu hyd at 5,338 o swyddi.

**8,660 o gartrefi newydd** i ateb y gofyniad am 7,890 o aneddiadau dros gyfnod y cynllun neu 526 y flwyddyn (yn seiliedig ar hyblygrwydd o 10%).

Cyflawni **targed tai fforddiadwy o 3,070 o gartrefi**.



# Diagram Allweddol

**Mae’r diagram allweddol yn dangos Strategaeth y CDLN ac yn dangos maint Cyngor Bro Morgannwg ac ardal y CDLN**



# Safleoedd Allweddol

**Er mwyn cyflawni twf strategol y cynllun a chyfrannu at fodloni'r gofyniad tai a nodwyd, mae'r safleoedd allweddol canlynol wedi'u nodi ar gyfer datblygiad dan arweiniad preswyl:**



## KS1 - Tir yng Ngogledd-ddwyrain y Barri

Mae tir yng Ngogledd-orllewin y Barri wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl gan gynnwys creu llwybr Teithio Llesol a gwelliannau ar gyfer seilwaith priffyrdd lleol. Bydd y safle'n darparu 376 anheddau, 30% y bydd yn ofynnol iddynt fod yn fforddiadwy.



## KS2 - Tir i'r gogledd o Ddinas Powys, oddi ar Heol Caerdydd

Mae tir i'r gogledd o Ddinas Powys yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl, yn ogystal â gwelliannau i seilwaith priffyrdd lleol. Bydd y safle yn darparu cartrefi 250 yn ystod cyfnod y Cynllun gydag isafswm o o 40% dai fforddiadwy.



## KS3 - Tir yn Readers Way, y Rhws

Mae Tir yn Readers Way, y Rhws yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad dan arweiniad preswyl o 520 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd rhaid i o leiaf 30% o'r holl gartrefi newydd fod yn fforddiadwy.



## KS4 - Tir yn Church Farm, Sain Tathan

Mae tir yn Church Farm, Sain Tathan wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad a arweinir gan gartrefi preswyl a fydd hefyd yn cynnwys siop fwyd manwerthu gyda maes parcio cysylltiedig, gwelliannau priffyrdd sylweddol ac ehangu ysgol gynradd Sain Tathan. Bydd cartrefi yn cael eu datblygu 532 dros gyfnod y cynllun gydag isafswm 35% o o'r holl gartrefi newydd i fod yn fforddiadwy.



## KS5 - Tir i'r gorllewin o Sain Tathan

Mae tir i'r gorllewin o Sain Tathan wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl gyda 600 o gartrefi yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd rhaid i o leiaf 35% o'r holl gartrefi newydd fod yn fforddiadwy. Mae tir hefyd yn cael ei nodi ar gyfer gorsaf newydd i wasanaethu Sain Tathan gyda lle parcio a defnyddiau masnachol cyfagos. Bydd y safle hefyd yn elwa o lwybr teithio llesol newydd yn ogystal â gwelliannau i rwydweithiau priffyrdd lleol.

**Legend**

- Gorsaf Newydd Bosibl
- Mynediad Cerbydau Cyntaf
- Mynediad Cerbydau Eilaidd
- Mynediad Teithio Egnïol
- Rhwydwaith Teithio Egnïol
- Cysylltedd Cyntaf
- Ffiniau Safleoedd Allweddol CDLN
- Rhwydwaith Prif Ffyrdd
- Nodweddion Draenio
- Ardal Sylweddol o PG
- Preswyl
- Gofod Agored
- Supermarchnad a Maes Parcio Arfaethedig
- Defnydd Cymysg (gan gynnwys darpariaeth parcio ceir)
- Cyswllt arfaethedig i Ysgol Gynradd Sain Tathan
- Estyniad Ysgol Posibl
- Tir Wedi'i Ddiogelu ar gyfer Pont Teithio Egnïol dros y Rheilffordd
- Coedwig Gymunedol Newydd

### Safleoedd tai eraill

**Mae'r safleoedd canlynol isod wedi'u dyrannu fel safleoedd tai fforddiadwy gwledig gydag isafswm o   i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HG4 (1)** | **Tregolwyn** | Tir i'r dwyrain o Dregolwyn | 25 |
| **HG4 (2)** | **Aberthin** | Tir i'r gorllewin o Maendy Road | 25 |
| **HG4 (3)** | **Y Wig** | Tir yn Heol Fain | 50 |
| **HG4 (4)** | **Fferm Goch** | Tir i'r gogledd o Barc Busnes West Winds | 22 |

Gellir dod o hyd i Safleoedd Allweddol Eraill o fewn y Cynllun i helpu i gyrraedd gofyniad adeiladu tai'r CDLN tudalen nesaf.

# Dyrannu Tai

## Dyraniad Tai Newydd/Safleoedd wedi'u cario drosodd o'r CDLN blaenorol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HG1 (1)** | **Y Barri** | Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane | 135 |
| **HG1 (2)** | **Y Barri** | Tir yn y Mole | 65 |
| **HG1 (3)** | **Y Barri** | Tir yn Hayes Road | 70 |
| **HG1 (4)** | **Y Barri** | Tir yn Neptune Road | 40 |
| **HG1 (5)** | **Llanilltud Fawr** | Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewis Road (Safle C - Parsel Canologl) | 235 |
| **HG1 (6)** | **Y Bont-faen** | Tir sy'n ffinio â St Athan Road | 105 |
| **HG1 (7)** | **Sain Tathan** | Hen safle'r Stadiwm, gerllaw Burley Place | 80 |
| **HG1 (8)** | **Sain Tathan** | Clive Road, Sain Tathan | 51 |
| **HG1 (9)** | **Y Rhws** | Tir i'r Gogledd o Linell y Rheilffordd (Dwyrain) | 339 |
| **Cyfraniad Aneddiadau** | | | **1,120** |

## Prif Safleoedd sydd eisoes â chaniatâd cynllunio

| Cyfeirnod y Safle | Anheddiad | Enw'r Safle | Nifer yr unedau |
|---|---|---|---|
| **HG1 (10)** | **Penarth** | Tir yn Fferm Upper Cosmeston | 576 |
| **HG1 (11)** | **Llanilltud Fawr** | Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewis Road (Safle A - Parsel y Gorllewin) | 140 |
| **HG1 (12)** | **Llanilltud Fawr** | Tir rhwng Ffordd Fynediad y Gogledd ac Eglwys Brewis Road (Safle B - Parsel y Dwyrain) | 100 |
| **HG1 (13)** | **Llandochau** | Tir i'r de o Fryn Llandochau/ Heol Penarth | 133 |
| **HG1 (14)** | **Sili** | Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road (Cam 2) | 175 |



# Agweddau Allweddol Eraill ar y Cynllun Adnef

## Trafnidiaeth

Er mwyn cyd-fynd â'r twf tai newydd sy'n cael ei nodi o fewn y CDLN, mae'r llwybrau canlynol wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau/datblygiadau ar gyfer trafnidiaeth:

**Llwybrau Teithio Llesol**

1. Y Barri i Ddinas Powys.
2. Sili i Cosmeston.
3. Weycock Cross i Faes Awyr Caerdydd.

**Cynlluniau Trafnidiaeth Gyhoeddus**

4. Gorsaf Reilffordd a Chyfnewidfa Newydd Sain Tathan.
5. Gwelliannau i Gyfnewidfa Gorsaf Cogan.

**Gwelliannau Priffyrdd**

6. Cylchfan Weycock Cross, y Barri.
7. Cyffordd Gileston Road, Sain Tathan.

## Cyfleusterau Cymunedol Newydd

Disgwylir i adeiladwyr tai hefyd gyfrannu at gyfleusterau cymunedol newydd yn y Fro. Mae tir wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd ar gyfer datblygu cyfleusterau cymunedol newydd fel a ganlyn:

**Addysg**

1. Tir yng Ngerddi Clare, Y Bont-faen
2. Ysgol Gynradd Sain Tathan, Sain Tathan
3. Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Barri
4. Fferm Lower Cosmeston, Penarth

**Addysg, Gofod Cymunedol**

5. Fferm Upper Cosmeston, Penarth

Yn ogystal, mae tir wedi'i ddiogelu ar gyfer defnydd cymunedol posibl ar y safle canlynol:

6. Tir i'r de o'r rheilffordd, Sain Tathan

## Cyflogaeth

Dyrannu 67.8Ha hectar o dir cyflogaeth ar draws amrywiaeth o safleoedd er mwyn galluogi bwrw ymlaen â  a darparu hyd at 5,338 o swyddi, gan gyd-fynd ag amcanion twf y CDLN. Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu i ddarparu'r swyddi a'r tir cyflogaeth hyn:

**Arwynebedd llawr cyfleus**

1. Tir yn Fferm Bridge House, Llan-faes, Llanilltud Fawr (1,251sq m)

**Tir cyflogaeth gyffredinol** Dyraniadau Cyflogaeth Mawr*

1. Tir i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd, y Rhws (16.4 ha net)
2. Tir i'r de o Port Road (Model Farm), y Rhws (44.75 ha net)
3. Parc Busnes ac Awyrofod Bro Tathan (66.7 ha net)
4. Tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4, Hensol (36.23ha net)

**Dyraniadau Cyflogaeth Lleol:**

5. Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Y Barri (1.59 ha net)
6. Parc Windmill, Hayes Road, y Barri (3.6 ha net)
7. Parc Busnes Cyffordd y Fro, Llandŵ (10.9 ha net)
8. Tir yn Ystâd Fasnachu Llandŵ (1.85 ha net)

# Polisïau Strategol

**Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi 20 o bolisïau strategol sy'n mynd i'r afael â'r themâu allweddol a hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion.**

Mae'r polisïau wedi'u rhannu'n o gategorïau gwahanol sy'n cael eu hegluro isod:

### Dewisiadau Strategol a Gofodol

- **SP1** Strategaeth Twf
- **SP2** Hierarchaeth Aneddiadau
- **SP3** Datblygu yng Nghefn Gwlad
- **SP4** Creu Lleoedd
- **SP5** Creu lleoedd a gofodau iach a chynhwysol
- **SP6** Gofyniad Tai

### Lleoedd Actif a Chymdeithasol

- **SP7** Darpariaeth Tai Fforddiadwy
- **SP8** Gofynion Tai Fforddiadwy
- **SP9** Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Threiswy
- **SP10** Trafnidiaeth Cynaliadwy
- **SP11** Canolfannau Adwerthu, Masnachol a Gwasanaethau
- **SP12** Darpariaeth Llawr Siopa
- **SP13** Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio

### Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

- **SP13** Twf Cyflogaeth
- **SP14** Twristiaeth Gynaliadwy
- **SP15** Lliniaru ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd
- **SP16** Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
- **SP17** Darparu Mwynau yn Gynaliadwy

### Lleoedd Unigryw a Naturiol

- **SP18** Seilwaith Gwyrdd
- **SP19** Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau





# Dweud eich dweud ar y Cynllun Adneuo

**Byddai'r Cyngor yn croesawu eich barn ar Cynllun Adneuo a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud ar ddyfodol ardal y cynllun.**

Bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn digwydd rhwng dydd Mercher **28 Ionawr 2026 a 11 Mawrth 2026.** Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau **yw 23:55 ar 11 Mawrth 2026**. Ni fydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad ac amser cau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried.

Mae'r Cynllun Adneuo a Ffefrir a'r holl ddogfennau ategol ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ac mae copïau o'r Cynllun Adneuo wedi'u rhoi yn holl lyfrgelloedd y Cyngor a'r Ganolfan Ddinesig.

## Sut i gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Adneuo

**Gellir gwneud sylwadau ar ymgynghoriad y Cynllun Adneuo yn y ffyrdd canlynol.**

**Defnyddio ein porth ymgynghori ar-lein:** Mae'r Cyngor yn annog i bob ymateb i'r Cynllun Adneuo gael ei wneud drwy ei'r porth ymgynghori ar-lein, sy'n cynnwys elfennau i'ch helpu i wneud sylwadau, yn ogystal â'r gallu i gadw ac adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad cyn ei gyflwyno'n derfynol.

I gyflwyno ymateb ar-lein i'r Cynllun Adneuo, bydd angen i chi naill ai fewngofnodi i'r cyfrif sydd gennych yn barod (os cyflwynoch chi sylwadau ar gam y Strategaeth a Ffefrir neu os cofrestroch chi eich diddordeb) neu sefydlu cyfrif newydd a dilyn y Canllawiau sydd ar gael ar y wefan. Gallwch ddefnyddio'r porth ymgynghori ar-lein i ddarllen a rhoi sylwadau ar y RLDP Adneuo a'r dogfennau cynorthwyol. Gellir cael mynediad at y porth ymgynghori ar-lein yn: **https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy**

**E-bost:** Llenwch y ffurflen ymgynghori sydd ar gael ar dudalen we'r Cyngor yn www.valeofglamorgan.oc2.uk/cy a'i hanfon at: LDP@bromorgannwg.gov.uk

**Post:** Gallwch argraffu, llenwi a dychwelyd y ffurflen sylwadau i'r tîm CDLN yn: **Tîm CDLN, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU**

Mae ffurflen sylwadau ymgynghoriad y CDLN Adneuo ar gael mewn fformatau eraill ar gais, e.e. Cymraeg neu brint bras. Cysylltwch â Thîm y CDLN yn LDP@bromorgannwg.gov.uk neu'r cyfeiriad uchod.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl ymgynghoriad?

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ofalus ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori a fydd yn nodi pwy yr ymgynghorwyd â nhw, y materion allweddol a godwyd a sut y mae'r Cyngor yn credu y dylid mynd i'r afael â phob sylw.

Bydd y Cynllun a'i ddogfennaeth ategol, gan gynnwys yr Adroddiad Ymgynghori, yn cael eu hystyried gan y Cyngor Llawn i gymeradwyo ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn trefnu i Arolygydd Cynllunio annibynnol gael ei benodi i archwilio'r Cynllun.

Bydd yr Arolygydd Cynllunio yn ystyried a yw'r Cynllun yn addas at y diben trwy ei asesu yn erbyn tri phrawf o gadernid:

- Prawf 1: A yw'r cynllun yn gweddu?
- Prawf 2: A yw'r cynllun yn addas?
- Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni?

Bydd cyfres o Wrandawiadau yn cael eu cynnal i archwilio unrhyw faterion y mae angen eglurhad pellach ar yr Arolygydd yn eu cylch. Bydd yr Arolygydd yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed ar y Cynllun Adneuo ond bydd gan y rhai sydd wedi gwneud sylwadau yr hawl hefyd i gael eu clywed mewn Gwrandawiad Archwilio.

Yn dilyn y Gwrandawiadau, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad sy'n ystyried y materion a godwyd. Os canfyddir bod Cynllun yn gadarn, yn amodol ar newidiadau, bydd adroddiad yr Arolygydd yn nodi argymhellion rhwymol. Gall argymhellion gynnwys testun wedi'i ailddrafftio, hepgor polisi neu adran o destun (neu gynnwys un newydd), neu newidiadau i'r Map Cynigion, ar yr amod bod yr hyn sy'n weddill yn cynnwys cynllun cadarn o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd.

Ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygydd, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i fabwysiadu'r CDLN, a fydd yn disodli'r un presennol, a bydd yn dod yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ym Mro Morgannwg.

Cyngor Bro Morgannwg

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd
2021 – 2036



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

RLDP CDLN